

# Grŵp Cyswilt Prosiect Adeiladu Newydd Wylfa

## COFNODION

Dydd Iau, 2il Mehefin, 17.30, Canolfan Dysgu a Datblygu Wylfa

**Yn bresennol (yn nhrefn yr wyddor yn ôl sefydliad):**

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Arolygaeth Sefydliadau Niwclear	Donald	Urquhart
Cadeirydd	Dennis	Evans
Coleg Menai	Wyn	Thomas
Cwmni Cemaes Cyf	Eric	Torr
Cyngor Cymunedol Llanbadrig	Allan	Kerry
Cyngor Cymunedol Llanbadrig	Wil	Hughes
Cyngor Cymunedol Llaneilian	Helen	Woodcock
Cyngor Cymunedol Llanfachraeth	Bleddyn	Rowlands
Cyngor Cymunedol Llannerchymedd	John	Jukes
Cyngor Sir Ynys Môn (Ynys Ynni)	Dylan	Williams
Cyngor Sir Ynys Môn (Llanfaethlu)	Kenneth	Hughes
Cyngor Sir Ynys Môn (Mechell)	Thomas	H Jones
Cyngor Tref Amlwch	Val	Roberts
Cymdeithas Ymdeoledigion Wylfa	Tom	Conway
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Mark	Isherwood
Dŵr Cymru (Welsh Water)	Angela	Meadows
Dŵr Cymru (Welsh Water)	Alan	Hall
Gwasanaeth Ambiwians Gogledd Cymru	Keith	Williams
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Is-gadeirydd	Jac	Jones
Prifysgol Bangor	Paul	Spencer
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Will	Edwards
Undeb Unite	Trevor	Roberts
<b>Aelodau'r Cyhoedd</b>		
	Mark	Thornton

Os nad yw'ch enw ar y rhestr oherwydd camgymeriad neu os yw wedi ei nodi'n anghywir, cysylltwch â ni ar 0800 954 9516 neu [wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com](mailto:wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com).

## 1. Croeso

- Agorwyd y cyfarfod gan hwylusydd Pŵer Niwclear Horizon (Horizon) Eiliw Ellis-Davies (EED) a diolchodd i'r aelodau am fynychu.
- Cyhoeddodd EED mai canlyniad proses bleidleisio trwy'r post oedd ethol Dennis Evans yn gadeirydd (gyda 12 pleidlais o'r 18 a fwriwyd) a Jac Jones yn is-gadeirydd (gyda 11 pleidlais o'r 16 a fwriwyd).

## 2. Cyflwyniad gan y cadeirydd a'r is-gadeirydd

- Cyflwynodd Dennis Evans (DE) ei hun i aelodau fel gŵr o Fiwmares gyda 4 o blant a 7 o wyrion, gan ychwanegu:
  - Bod ganddo radd mewn Ffiseg o Brifysgol Cymru ac mae wedi gweithio ar brosiectau seilwaith mawr yn yr Alban, yr Almaen, Gogledd Iwerddon a Chymru.
  - Bod ei yrfa'n cynnwys 25 mlynedd yn Wylfa mewn amryw o swyddi gweithredol a chefnogol.
  - Ei fod wedi gweithio gyda'r cyngor sir a chynghorau lleol ar amryw o brosiectau adfywio ers 2001.
  - Mai ei flaenoriaeth fel cadeirydd y GCP yw sicrhau bod pawb ar Ynys Môn yn cael budd o'r prosiectau a bod unrhyw effeithiau andwyol yn cael eu lleihau.
  - Byddai unrhyw orsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa'n brosiect mawr gyda chyfleoedd i bawb - yn arbennig pobl ifanc a fydd yn ennill o gyfleoedd am swyddi da gyda chyflogau da am nifer o flynyddoedd i ddod.
  - Ei fod yn awyddus i edrych ar y posibilrwydd o ffurfio is-grwpiau i helpu'r GCP redeg yn fwy effeithiol.
- Cyflwynodd Jac Jones (JJ) ei hun fel cynghorydd cymunedol dros Fechell, gan ychwanegu:
  - Ei fod wedi bod â ddiddordeb yn y diwydiant ynni ar hyd ei oes a bod ganddo radd mewn peirianneg drydanol.
  - Ei fod wedi gweithio i Anglesey Aluminium am 30 mlynedd mewn nifer o swyddi technegol a rheoli.

- Mai un o'i brif bryderon yw newid hinsawdd a'r ôl troed amgylcheddol yr ydym yn ei gadael i'r genhedlaeth nesaf. Mae hefyd yn ymwneud â phrosiect ynni adnewyddadwy cymunedol - Carrog Renewables.
- Ei fod yn llwyr gefnogol i'r GCP a'i gylch gorchwyl ac yn edrych ymlaen at gefnogi'r aelodau a'r cadeirydd.
- Cyhoeddodd DE ymddiheuriadau oddi wrth:
  - Richard Parri Jones – Adran Addysg (Cyngor Sir Ynys Môn)
  - Linda Wyn Jones – Cynrychiolydd Rhaglen Ynys Ynni (Cyngor Sir Ynys Môn)
  - Cheryl Whitaker – Cynrychiolydd Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru
  - John Bufton ASE – UKIP Wales (Etholaeth Gogledd Cymru)
  - Ieuan Wyn Jones AC – Aelod Lleol Llywodraeth Cymru (Gogledd Cymru)
  - Helen George – Asiantaeth Safonau Bwyd
  - Glyn Jones – Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Lleol
  - Valerie Taylor – Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig
- Nodwyd ymddiheuriadau ychwanegol, trwy gyfrwng yr aelodau, oddi wrth:
  - Melanie Wymer (Ymddiriedolaeth Bodorgan)
  - Cynghorydd Dylan Jones (Porth Amlwch)
  - Sasha Davies (Cyngor Sir Ynys Môn)
  - Cynghorydd Tony Hughes (Cyngor Cymunedol Llanbadrig)
- Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y GCP (Mawrth 10<sup>fed</sup>) fel cofnod cywir o ddigwyddiadau a chawsant eu cymeradwyo gan yr aelodau.
- Fe atebodd Leon Flexman, pennaeth cyfathrebu Horizon, gwestiwn a godwyd gan Tom Conway (TC) yng nghyfarfod diwethaf y GCP ynglŷn â'r broses tendro am gytundebau. Eglurodd bod Horizon wedi ei eithrio o'r Gyfarwydddeb Cyfleustodau a'r Rheoliadau Cyfleustodau ar gyfer cytundebau'n galluogi cynhyrchu trydan yn Lloegr, Cymru a'r Alban. Mae hyn yn golygu bod gwahoddiadau i ymateb i gyfle tendro uniongyrchol neu 'Gais am Wybodaeth' gan Bŵer Niwclear Horizon yn cael eu gwneud yn uniongyrchol gyda chyflenwyr yn hytrach na chael eu hysbysebu trwy OJEU neu ddarparwyr eraill sy'n hysbysu tendrau.
- Gofynnodd TC gwestiwn atodol, yn gofyn i LF egluro a fyddai cyflenwyr sydd wedi eu his-gontractio i Horizon yn gweithredu'n defnyddio'r un eithriad neu a fyddai Deddfwriaeth Symudedd yr UE yn gweld gweithwyr o ar draws Ewrop yn gweithio ar y safle.
- Dywedodd LF na fyddai Horizon a'i gyflenwyr is-gontractiau yn mynd yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig nag Ewropeaidd ond gyda phenllanw disgwylidig o dros 5,000 o weithwyr ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu, roedd yn debygol y byddai cymysgedd o weithwyr lleol a rhai o ymhellach i ffwrdd yno. Ychwanegodd y byddai digon o gyfleoedd i bobl a busnesau lleol ac y byddai'r pwyslais ar ddysgu sgiliau i'r gweithlu lleol a'r gadwyn gyflenwi lleol i'w helpu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a fyddai'n codi.

- Dywedodd sawl aelod nad oeddent wedi derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf. Gofynnodd DE i'r aelodau hynny wneud yn siŵr bod gan Horizon eu manylion cyswllt ar ddiwedd y cyfarfod.

### **3. Newyddion diweddaraf am y safle a'r prosiect - Leon Flexman**

- Rhoddodd LF gyflwyniad i'r aelodau ar ddiogelwch yn sgil y tswnami a daeargryn yng ngorsaf bŵer Fukushima Daiichi yn Japan.
- Eglurodd bod Prif Arolygwr Niwclear y Llywodraeth, Dr Mike Weightman, wedi cyhoeddi fersiwn interim o'r adroddiad y mae'r Gweinidog Ynni Chris Huhne wedi gofyn iddo'i ysgrifennu.
- Roedd yr adroddiad interim yn cynnwys 25 o argymhellion ac yn gofyn am ymatebion swyddogol gan y diwydiant niwclear erbyn 17<sup>eg</sup> Mehefin. Eglurodd LF bod Horizon wrthi'n paratoi ei ymateb ond dywedodd y byddai'r argymhellion yn cael eu defnyddio i helpu i lunio cynigion ar gyfer unrhyw ddatblygiad niwclear newydd yn Wylfa
- Eglurodd LF er ei bod yn bwysig nodi unrhyw wers y gellid ei dysgu yn sgil y digwyddiadau yn Japan, roedd tîm Horizon yn parhau i ddatblygu ei gynlluniau gyda chefnogaeth lwyr gan ei ddau gyfranddaliwr.
- Ni fydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'r gwerthwr adweithydd a'r consortiwm adeiladu perthnasol nes y bydd fersiwn terfynol adroddiad Weightman yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2011 a nes y bydd Horizon a'r gwerthwyr wedi cael y cyfle i ystyried ei gyngor ac argymhellion terfynol.
- Byddai hyn yn golygu gohiriad o ryw 6 mis yn y rhaglen ond cadarnhaodd LF bod y tîm prosiect eisoes yn edrych ar ffyrdd o gynnwys y gohiriad hwn yn ddiweddarach yn amserlen y rhaglen er mwyn cadw amseroedd gwreiddiol y rhaglen.

### **4. Newyddion diweddaraf am y Safle a'r Prosiect – Alan Smith**

- Eglurodd Alan Smith (AS) yr holl wahanol agweddau o'r prosiect sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y tîm prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys terfynau'r safle, adweithyddion a systemau oeri, mewnforio ac allforio i/o'r grid, mynediad i'r safle, llety gweithwyr a chynlluniau trafndiaeth.
- Mae nifer o gerrig milltir eisoes wedi eu cyrraedd. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddeall gwneuthuriad daearegol ac ansawdd y safle ynghyd ag astudiaethau i helpu i sicrhau bod y prosiect yn cael yr effaith lleiaf posib ar ecoleg a'r amgylchedd. Byddai gwaith cychwynnol

hefyd yn cynnwys gwaith tir a lefelu, adleoli ceblau pŵer foltedd uchel a datrys unrhyw faterion perchnogaeth tir sy'n dal i fodoli.

- Mae'n debygol yn awr y bydd y sianel cymeriant (ar gyfer dŵr oeri) a'r offer dadlwytho morol yn cael eu lleoli ym Mhorth-y-pystill. Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud yn dilyn archwiliad manwl o beryglon a chostau lleoliadau amgen. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn ystyried a fyddai angen gosod morglawdd hefyd.
- Mae Horizon hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Grid Cenedlaethol a Scottish Power Energy Networks i ymgymryd â symud y ceblau 4 x 132 KV sydd ar y safle. Pwysleisiodd AS ymroddiad Horizon i sicrhau bod y broses hon yn cael ei chynnal mewn ffordd na fyddai'n amharu ar gyflenwadau ynni.
- Amlinellodd AS amserlen y prosiect yn fras fel a ganlyn:
  - Ymgynghoriad cyn gwneud cais (Cam 1) – Gaeaf 2011 / 2012
  - Ymgynghoriad cyn gwneud cais (Cam 2) – 2013
  - Cynhyrchu cyntaf – tua 2020
- Byddai'r cais am Orchymyn Cydsynio Datblygiad ar gyfer unrhyw orsaf bŵer newydd ar y safle yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Bydd ceisiadau am ddatblygiad cysylltiedig yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Cyngor Sir Ynys Môn.
- Cyhoeddodd AS bod Horizon yn cytuno ar Gytundeb Perfformiad Cynllunio gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r cytundeb hwn yn ymrwymo cefnogaeth cyllid ac adnoddau gan Horizon i sicrhau bod y cyngor yn gallu cwrdd â'i dyletswyddau ychwanegol yn archwilio ac ystyried y prosiect heb gael effaith wrthwynebus ar ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

## 5. Holi ac Ateb

- Awgrymodd y Cyngorydd Tom Jones (Mechell) bod y pynciau yn argymhellion adroddiad Weightman yn haeddu eu harchwilio mewn mwy nag un cyfarfod GCP a holodd a oedd cyfranddalwyr Horizon yn dal yn hyderus y gallant godi'r cyfalaf sydd ei angen i gefnogi'r prosiect.
- Cadarnhaodd DE y byddai pynciau o argymhellion Weightman yn cael eu cynnwys yng nghyfarfodydd y GCP yn y dyfodol yn dechrau gyda'r cyfarfod nesaf. Eglurodd LF bod cyfranddalwyr Horizon (EON a RWE) ill dau yn fusnesau mawr gyda throsiadau blynyddol o dros €50 biliwn a bod gan y ddau gwmni ddiddordeb mewn cynyddu'r gyfran o ynni carbon isel yn eu portffolios cynhyrchu pŵer. Y cyfarwyddyd i Horizon gan y ddau gyfranddaliwr yw parhau i ddatblygu eu cynigion.

- Holodd Will Edwards (NFU) pam nad oedd y Grid Cenedlaethol yn cael ei gynrychioli yn y cyfarfod, gan amlygu pryderon difrifol ynglŷn â'r cysylltiadau grid ymysg pobl sy'n byw a ffermio yn yr ardal.
- Cadarnhaodd AS bod y Grid Cenedlaethol wedi cael gwahoddiad i gyflwyno yn y cyfarfod nesaf a'i fod wedi derbyn y cynnig. Cyfeiriodd TC Mr Edwards at y Grŵp Strategaeth Rhwydweithiau Trydan am fwy o wybodaeth ar faterion yn ymwneud â'r grid
- Holodd y Cynghorydd Will Hughes (Llanbadrig) am yr anghenion cyflenwi dŵr ffres yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu'r orsaf newydd. Gofynnodd a fyddai'r cyflenwad presennol yn ddigonol.
- Cadarnhaodd AS bod Horizon a'i ddau werthwr yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru ar y mater hwn. Nid yw creu diffyg cyflenwad ar Ynys Môn yn dderbyniol ac mae gwaith dihalwyno ymysg yr opsiynau sy'n cael eu hystyried.
- Estynnodd y cadeirydd wahoddiad i Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn) i roi cyflwyniad byr ar y Rhaglen Ynys Ynni, a gafodd ei chreu i ' greu canolfan o ragoriaeth byd enwog ar gyfer cynhyrchu, dangos a chynnal ynni carbon isel' ar Ynys Môn. Gwahoddodd DE Ynys Ynni i gynnig diweddariadau yng nghyfarfodydd y GCP yn y dyfodol.
- Croesawodd Sarah Andrews (Iechyd Cyhoeddus Cymru) y penderfyniad i gynnal Asesiad Effaith ar Iechyd ar wahân ar gyfer y prosiect. Mae hi'n credu y bydd yr hinsawdd economaidd well fydd yn cael ei greu ar Ynys Môn yn sgil y prosiect yn cael effaith buddiol a mesuradwy ar iechyd y trigolion.

## 6. Cau'r cyfarfod

- Daeth DE â'r cyfarfod i ben a chadarnhau y byddai'r cyflwyniadau ar gael ar-lein ar wefan Horizon.
- Bydd dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf yn cael ei ddsbarthu yn y man ac fe fyddai'r posibilrwydd o ddechrau a gorffen y cyfarfodydd yn gynharach yn y dydd yn cael ei ystyried. Dywedodd DE nad oedd yn rhaid i gyfarfodydd y GCP yn y dyfodol gyd-ddigwydd gyda chyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Magnox.

*Am wybodaeth fwy cyffredinol am y prosiect neu i holi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0800 954 9516 neu [wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com](mailto:wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com) ac ewch i [www.horizonnuclearpower.com](http://www.horizonnuclearpower.com)*